24.11.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Dan Do yn cynnig cyfle i gael cip ar gartrefi godidog Cymru

Yn y bennod ddiweddaraf o'r gyfres **Dan Do**, bydd Mandy Watkins ac Aled Samuel yn ein tywys o amgylch tai diddorol ac unigryw ym Mhenarth, Blaencelyn a'r Bontfaen.

Yr wythnos hyn, bydd cyfle i fwrw golwg ar dri cartref tra wahanol; cyn eglwys, tŷ newydd sbon a chartref fictorianaidd.

Mae Aled yn galw gyda Jess Allen yn gyntaf, artist syrcas awyrol sydd wedi addasu hen eglwys ym Mlaencelyn ger Llangrannog i fod yn gartref iddi hi a'i phartner Richard. Y nenfwd yw'r prif atyniad yma gyda'r gofod godidog wedi ei lenwi a rhaffau a slingiau sidan er mwyn i Jess ymarfer ei chrefft â ymarfer a dysgu Yoga awyrol.

"O ni moyn bod yn chwareus gyda'r lle. O ni moyn cydnabod hanes y lle fel eglwys, ac o ni moyn cael bach o hwyl - ond hwyl parchus.

"Roedd o'n dipyn bach o risg, roedd rhaid i ni brynu'r lle cyn gallu profi'r *rafters*. Mae ffrind i ni'n gweithio fel *rigger* proffesiynol i syrcas, daeth e lawr i brofi'r rafters gyda *stage weights*."

"Mae'n berffaith i fi, gallai ymarfer tu fewn yn y gaeaf, a thu fas yn yr haf. Mae'r ardal mor hyfryd. Da ni'n tyfu llysiau, mae'n le perffaith i fyw."

Yn ddiddorol, mae Jess a Rich hefyd wedi cofleidio'r cyfrifoldeb o gynnal y fynwent sy'n perthyn i'r eglwys.

Nesa, mae Mandy yn ymweld â chartref newydd sbon ym mhentref Penllyn ger y Bontfaen. Katie, Andrew a'u merch Tilly sy'n byw yn y tŷ soffistigedig sydd hefyd ag elfennau theatrig a chwareus ar ffurf dodrefn lliwgar a darnau *vintage*.

Felly sut aeth Katie Dobson ati i ddod a bywyd i adeilad newydd?

"Dwi'n tueddu disgyn mewn cariad gydag eitemau allweddol, fel goleuadau. Roedden ni'n gwybod bod rhai darnau *wacky* ar y waliau felly mae cadw popeth yn lân a syml ym mhob man arall yn golygu y gallwn ni ei gymysgu gyda celf fwy gwyllt."

"Mae'r ddau ohonon ni wastad wedi bod yn gasglwyr o 'stwff'. Dwi'n caru teipograffeg, felly unrhyw hen arwyddion neu lythrennau. Dwi wrth fy modd hefo steil sy'n cyd-fynd a ffair hen ffasiwn, yr aur a'r lliwiau llachar. Pryd bynnag rydyn ni'n mynd i rywle rydyn

ni bob amser yn stopio i edrych yn yr iardiau 'salvage'. Rydyn ni hefyd wedi dod o hyd i dipyn o bethau mewn sgipiau ry'n ni wedi eu cloddio allan".

Yn olaf, mae Mandy ac Aled yn cwrdd mewn tŷ ym Mhenarth sy'n cyfuno'r modern a'r traddodiadol, cartref i Catrin, James a'u plant Gruff a Nansi Bennett, a Monty y ci.

"Pan gerddom ni mewn o ni'n gallu gweld bod dal lot o'r pethau gwreiddiol dal yma. Felly y syniad oedd gwneud e'n fwy modern nac oedd e, ond mae lot o'r tŷ dal yn draddodiadol iawn," meddai Catrin.

Am gyfle i archwilio pob twll a chornel o'r cartrefi arbennig yma, gwyliwch **Dan Do** ar S4C ar nos Fercher 7 Rhagfyr am 8.25.

**Dan Do**
**Dydd Mercher 7 Rhagfyr, 8.25**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

24.11.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# S4C interiors show, Dan Do, showcases Wales's most unique homes

In the latest episode of the series **Dan Do**, Mandy Watkins and Aled Samuel take us around some interesting and unique houses in Penarth, Blaencelyn and Cowbridge.

This week, they check out three vastly different homes; a former church, a new build and a Victorian property.

Aled calls-in with Jess Allen first, an aerial circus artist who has converted an old church in Blaencelyn near Llangrannog into a home for her and partner Richard. The main attraction is the ceiling, a magnificent space filled with ropes and silk slings for Jess to practice her craft and to practice and teach aerial Yoga.

"We wanted to be playful. We wanted to acknowledge the history of the place as a church and have fun whilst being respectful to the building and its history.

"It was a bit of a risk, we had to buy the place before we could test the strength of the rafters. A friend of ours works as a professional rigger for a circus, once we had the keys he came down to test the rafters with stage weights."

"It's perfect for me, I can practice indoors in the winter and outside in the summer. We grow vegetables, the area is so lovely, it's the perfect place to live."

Interestingly, Jess and Rich have also embraced the responsibility of maintaining the cemetery that belongs to the church.

Next, Mandy visits a brand new home in the village of Penllyn near Cowbridge. Katie, Andrew and their daughter Tilly live in the sophisticated house which also has theatrical and playful elements in the form of colourful furniture and vintage pieces.

So how did Katie Dobson go about bringing a new build to life?

"I kind of fall in love with key items, like lights. We knew there were some wacky pieces on the walls so keeping everything clean and simple everywhere else means we can mix it up with some of the more wild art."

“We’ve both always been collectors of ‘stuff’. I love typography, so any old signage or letters. I love the whole look of a vintage fairground, the gold and bright colours. Whenever we go on a trip somewhere we always stop and check out salvage yards. We’ve also found quite a few things in skips that we’ve dug out”.

Finally, Mandy and Aled meet in a house in Penarth that combines both modern and traditional styles, home to Catrin, James, their children Gruff and Nansi Bennett and Monty the dog.

"As soon as we walked in we could see a lot of the original features were still here. The idea was to modernise it whilst making the most of the existing traditional elements" Catrin said.

For a chance to explore every nook and cranny of these special homes, watch **Dan Do** on S4C on Wednesday 7 December at 8.25.

**Dan Do**
**Wednesday 7 December, 8.25**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**